**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

# Ymchwiliad i ddiogelu'r arfordir yng Nghymru

Hydref 2012

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliadcymru.org**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8639
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: PwyllgorAC@cymru.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2012
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

Ymchwiliad i ddiogelu'r arfordir yng Nghymru

Hydref 2012

**Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd**
Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011 gyda chylch gwaith i archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar faterion gwariant, gweinyddu a pholisi sy'n cynnwys: cynnal, datblygu a chynllunio ar gyfer amgylchedd ac adnoddau ynni naturiol Cymru.

**Aelodau cyfredol y Pwyllgor**



**Dafydd Elis-Thomas (Cadeirydd)**
Plaid Cymru
Dwyfor Meirionnydd



**Mick Antoniw**
Llafur Cymru
Pontypridd



**Keith Davies**
Llafur Cymru
Llanelli



**Russell George**
Ceidwadwyr Cymreig
Sir Drefaldwyn



**Vaughan Gething**
Llafur Cymru
De Caerdydd a Phenarth



**Llyr Huws Gruffydd**
Plaid Cymru
Gogledd Cymru



**Julie James**
Llafur Cymru
Gorllewin Abertawe



**William Powell**
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru



**David Rees**
Llafur Cymru
Aberafan



**Antoinette Sandbach**
Ceidwadwyr Cymreig
Gogledd Cymru

# Cynnwys

**Argymhellion y Pwyllgor** ..... 5
**Rhagarweiniad** ..... 7
**Dull Strategol o Ddiogelu Arfordiroedd yng Nghymru** ..... 9
Monitro Gwyddonol a Rhannu Data ..... 9
Datblygu Gweledigaeth a Rennir ar gyfer yr Arfordir ..... 10
Swyddogaeth y Corff Adnoddau Naturiol ..... 12
Monitro Cynnydd ..... 12
**Cyfathrebu ac Ymgysylltiad y Cyhoedd** ..... 14
**Adnoddau staff a'u gallu i gyflenwi** ..... 17
**Cyllid** ..... 18
Cyllid gan yr UE ..... 19
Blaenoriaethu Buddsoddi ..... 20
Dysgu o brosiectau braenaru ..... 21
**Adolygu Darpariaethau a Chanllawiau Cynllunio** ..... 22
**Cyfarwyddeb Cynefinoedd** ..... 25
**Atodiad A - Cylch gorchwyl** ..... 26
**Atodiad B - Tystion** ..... 27
**Atodiad C - Tystiolaeth Ysgrifenedig** ..... 29

## Argymhellion y Pwyllgor

Mae argymhellion y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru i'w gweld isod, yn y drefn y byddant yn ymddangos yn yr adroddiad hwn. Ewch i'r tudalennau perthnasol yn yr adroddiad i weld y dystiolaeth a'r casgliadau sy'n cyd-fynd â'r argymhellion:

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru roi sicrwydd cyn gynted â phosibl o'u hymrwymiad hirdymor i raglen strategol barhaus o fonitro arfordiroedd rhanbarthol Cymru, ac amlinellu'n gyhoeddus sut y maent yn bwriadu i'r rhaglen honno ddatblygu yn y dyfodol, gan ystyried modelau llwyddiannus eraill yn yr UE. (Tudalen 10)

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru roi sicrwydd bod y Cynlluniau Rheoli Traethlinau ail genhedlaeth terfynol a gymeradwyir ar gyfer Cymru'n adlewyrchu'n glir amcanion polisi'r Strategaeth Genedlaethol ac yn gysylltiedig â hi, ac y ceir cysylltiadau clir rhwng y Strategaeth a pholisïau rheoli adnoddau naturiol eraill. (Tudalen 11)

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau y dyrennir lefel briodol o adnoddau i gefnogi gweithgareddau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol o fewn cyllideb y Corff Adnoddau Naturiol. (Tudalen 12)

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru roi sicrwydd y bydd yn adrodd am ganlyniadau'r cynlluniau a'r gweithgareddau sy'n codi o'r Strategaeth Genedlaethol Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol, erbyn dechrau 2014. (Tudalen 13)

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu strategaeth ymgysylltiad y cyhoedd a chynllun cyfathrebu gyda chyllid i wella ymwybyddiaeth gyffredinol o ddiogelu arfordiroedd fel mater o flaenoriaeth i Gymru gyfan, i gymunedau ac i'r swyddogion a'r gwleidyddion sy'n gyfrifol am gyflawni cynlluniau SMP ac amcanion y Strategaeth Genedlaethol ar lefel leol. Dylai'r cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu hwn fod â'r nod o ddatblygu ac atgyfnerthu cefnogaeth eang ac amhleidiol i weithredu'r cynlluniau SMP a nodau'r Strategaeth Genedlaethol. (Tudalen 16)

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod eu dull strategol o ddiogelu arfordiroedd yn cynnwys sefydlu mecanweithiau

cyflenwi sy'n cefnogi gweithio mewn partneriaeth a dull 'Tîm Cymru'. Os yw'r Corff Adnoddau Naturiol am gymryd y swyddogaeth diogelu arfordiroedd, rhaid i gyfrifoldebau allweddol y corff gynnwys sicrhau cydlynu arbenigedd a rhannu arfer gorau ledled Cymru. (Tudalen 17)

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio i ganfod a defnyddio ffynonellau cyllid newydd ar gyfer diogelu arfordiroedd: o gyllidebau adrannau ar draws y Llywodraeth a gan gyrff allanol, gan gynnwys rhai yn y sector masnachol a'r sector busnes, a'r rheini sy'n elwa o fentrau diogelu arfordiroedd drwy i'w hasedau economaidd gael eu diogelu. (Tudalen 20)

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu diweddariad pellach i'r Pwyllgor am weithredu'r Rhaglen Fuddsoddi Sengl. Awgrymir y dylid darparu diweddariad cynnydd cychwynnol yn hydref 2013. (Tudalen 21)

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru hysbysu'r Pwyllgor cyn gynted â phosibl am eu hasesiad o sut y gall gwersi a ddysgir o brosiectau braenaru yn Lloegr gael eu defnyddio yng Nghymru, ac a ydynt yn bwriadu cynnal prosiectau peilot tebyg. (Tudalen 21)

**Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu adolygu digonoldeb y darpariaethau cynllunio sy'n berthnasol i ddiogelu arfordiroedd, yn enwedig Nodiadau Cyngor Technegol 14 a 15, o fewn eu ffrydiau gwaith i ddiwygio system gynllunio Cymru. Dylid ystyried yn llawn y safbwyntiau a fynegwyd gan y rhanddeiliaid a roddodd dystiolaeth i ymchwiliad y Pwyllgor. (Tudalen 23)

**Argymhelliad 11.** Er mwyn sicrhau y gweithredir y Cynlluniau Rheoli Traethlinau'n amserol, mae angen i Lywodraeth Cymru flaenoriaethu ar frys y gwaith o gwblhau'r asesiadau gofynnol o'r cynlluniau rheoli traethlinau sy'n ofynnol gan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd flaenoriaethu'r gwaith o ganfod a chreu cynefinoedd cydbwyso addas. (Tudalen 25)

## Rhagarweiniad

Fel gwaith wedi'i etifeddu gan y Cynulliad blaenorol, ar 21 Mawrth 2012 cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymchwiliad pwyso a mesur i asesu cynnydd Llywodraeth Cymru ac awdurdodau perygl llifogydd Cymru o ran gweithredu'r Strategaeth Genedlaethol Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol, a Chynlluniau Rheoli Traethlinau cysylltiedig[1]. Mae'r gwaith hwn yn dilyn adroddiadau am Berygl Erydu Arfordirol a Llifogydd Llanw yng Nghymru gan Swyddfa Archwilio Cymru a Phwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad ym mis Hydref 2009 a mis Mai 2010. Mae cylch gorchwyl yr ymchwiliad hwn yn Atodiad A.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru eu Strategaeth Genedlaethol Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol gyntaf ym mis Tachwedd 2011. Mae'n haws diffinio nifer y bobl sydd mewn perygl o lifogydd yng Nghymru na'r nifer llawer llai sydd mewn perygl tymor canolig neu hir o ddioddef effeithiau erydu arfordirol. Ond fel y mae'r strategaeth yn ei ddatgan, mae erydu arfordirol yn dal i fod yn un o'r ddau berygl naturiol mwyaf sy'n effeithio ar ddiogelwch a chynaliadwyedd cymunedau ledled Cymru. Mae'r ddogfen yn amlinellu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i reoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â llifogydd ac erydu arfordirol, ac mae ail genhedlaeth Cynlluniau Rheoli Traethlinau Cymru (SMPII) yn y broses o gael eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru cyn y cânt eu rhoi ar waith.

Ar 5 Gorffennaf, cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Ganolfan Monitro Arfordirol Cymru (WCMC); Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (EAW) a Chyngor Cefn Gwlad Cymru (CCW); Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA); panel o ymgynghorwyr sy'n ymwneud â chynhyrchu Cynlluniau Rheoli Traethlinau; a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Yna, rhoddodd Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy dystiolaeth i'r Pwyllgor ar 19 Gorffennaf.

---

[1] Mae Cynllun Rheoli Traethlin (SMP) yn asesiad ar raddfa fawr o'r peryglon sy'n gysylltiedig â phrosesau arfordirol ac mae'n helpu i leihau'r peryglon hyn i bobl ac i'r amgylcheddau datblygedig, hanesyddol a naturiol. Ceir pedwar SMP sy'n ymdrin â morlin Cymru, ac mae'r ail genhedlaeth o Gynlluniau Rheoli Traethlinau wrthi'n cael ei chynhyrchu. Bydd y rhain yn ymdrin â'r 6000 cilometr o arfordir yng Nghymru a Lloegr. Pan fo'r adroddiad hwn yn cyfeirio at Gynlluniau Rheoli Traethlinau yn gyffredinol, disgrifir y rhain â'r acronym 'SMP'; pan fo'n cyfeirio at genhedlaeth gyntaf neu ail genhedlaeth Cynllun Rheoli Traethlinau cânt eu disgrifio fel 'SMPI' neu SMPII', yn ôl eu trefn.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi casgliadau ac argymhellion allweddol y Pwyllgor am Ddiogelu Arfordiroedd yng Nghymru, ac yn edrych ymlaen at ymateb Llywodraeth Cymru.

Ac ystyried bod y Strategaeth Genedlaethol wedi bod ar waith ers llai na blwyddyn, mae'r Pwyllgor yn cynnig gwylio'r cynnydd a wneir a chynnal adolygiad pellach pan fydd y cynlluniau SMPII yn fwy sefydledig. Yn y cyfamser, mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar i bawb a ddarparodd dystiolaeth ysgrifenedig a llafar i gynorthwyo â'u hymchwiliad.

# Dull Strategol o Ddiogelu Arfordiroedd yng Nghymru

Yn gyffredinol, roedd rhanddeiliaid yn gadarnhaol am strategaeth Llywodraeth Cymru a'u dull o ddiogelu arfordiroedd ar sail risg. Fel y nodwyd eisoes, nid yw'r strategaeth wedi bod ar waith ers amser hir. Fodd bynnag, canfu'r Pwyllgor nifer o faterion allweddol a rhwystrau posibl i weithredu'r strategaeth yn effeithiol ar lawr gwlad. Yn benodol, ceir pryderon am reoli adnoddau ac ariannu, ac am gyfathrebu ac ymgysylltiad y cyhoedd â rheoli risg morlin Cymru yn y tymor canolig a hir.

**Monitro Gwyddonol a Rhannu Data**

Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Ysgol Gwyddorau'r Ddaear a'r Môr ym Mhrifysgol Caerdydd (Prifysgol Caerdydd) "ni ellir diystyru'r angen am Strategaeth gadarn i roi sail i benderfyniadau cyson am amddiffyn a diogelu'r arfordir yn seiliedig ar wyddoniaeth dda". Croesawir gwaith Canolfan Monitro Arfordirol Cymru, ynghyd â chyhoeddi prosiect Mapio Erydu Arfordirol Cenedlaethol (NCERM) Asiantaeth yr Amgylchedd ar y rhyngrwyd, yr asesiad cyntaf ar raddfa genedlaethol i fesur erydu arfordirol yng Nghymru.

Fodd bynnag, clywodd y Pwyllgor fod llawer o le i wella o hyd, a bod bwlch rhwng ymdrechion Cymru a rhaglenni monitro arfordirol rhanbarthol strategol Lloegr[2], a lle i fwy o synergedd rhwng rhaglenni monitro mwy sefydledig yn Lloegr. Defnyddiwyd enghraifft de-orllewin Lloegr[3], lle mae setiau data mawr ar gael yn rhydd i amrediad eang o randdeiliaid, gan gynnwys y rheini sy'n gwneud gwaith rheoli cadwraeth, ymchwil academaidd a gweithgareddau addysg.

Mae'r pwyllgor yn cydnabod y cyfleoedd a all godi o waith WCMC, ac yn rhannu pryderon am ei dyfodol ansicr, wrth iddi baratoi i gyflwyno cynllun busnes i Lywodraeth Cymru i ymestyn cyllid am bum mlynedd i barhau â'i gwaith y tu hwnt i fis Ebrill 2013. Yn ogystal â phwysigrwydd casglu data, ac annog gweithio mewn partneriaeth a defnyddio dulliau cyson mewn gweithgareddau diogelu arfordiroedd ar draws awdurdodau lleol morol, mae'r amserlenni hir a ddefnyddir wrth reoli perygl erydu arfordirol yn golygu ei bod yn bwysig bod â ffynhonnell annibynnol o arbenigedd i ganfod tueddiadau a rhagfynegi cymaint â phosibl. Nododd CCW fod angen dull monitro cyson a

[2] Gan gynnwys Arsyllfa Arfordir y Sianel: http://www.channelcoast.org/
[3] Rhaglen Monitro Arfordirol Ranbarthol Strategol De-orllewin Lloegr - http://www.channelcoast.org/southwest/

chadarn i danategu'r penderfyniadau mawr y bydd angen eu gwneud er mwyn dyfodol morlin Cymru. Argymhellodd Prifysgol Caerdydd fwy o ddatblygu a buddsoddi mewn rhaglen hirdymor o fonitro ac ymchwil cysylltiedig, gan ddweud y byddai'n werth ystyried y model a ddarperir gan Arsyllfa Arfordirol Prifysgol Plymouth.

**Argymhelliad 1: Dylai Llywodraeth Cymru roi sicrwydd cyn gynted â phosibl o'u hymrwymiad hirdymor i raglen strategol barhaus o fonitro arfordiroedd rhanbarthol Cymru, ac amlinellu'n gyhoeddus sut y maent yn bwriadu i'r rhaglen honno ddatblygu yn y dyfodol, gan ystyried modelau llwyddiannus eraill yn yr UE.**

### Datblygu Gweledigaeth a Rennir ar gyfer yr Arfordir

Mae diogelu arfordiroedd Cymru'n golygu ystyried y forlin i gyd. Yn ogystal ag ystyried effeithiau cymdeithasol ac economaidd lleol, rhaid cael cydnabyddiaeth gyffredinol bod buddiannau cymdeithasol ac economaidd cymunedau arfordirol hefyd yn rhan o economi a chymdeithas ehangach Cymru. Rhaid atgyfnerthu a hyrwyddo'r neges hon drwy gyfrwng dulliau cyfannol o ariannu, cyfathrebu ac ymgysylltu ledled Cymru.

Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth ysgrifenedig a llafar yn rhoi sylw i'r angen i sicrhau bod y Strategaeth Genedlaethol Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol wedi'i hymwreiddio mewn dogfennau perthnasol eraill a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru, ac y caiff ei chysylltu â hwy. Nododd CCW, er bod y strategaeth yn paratoi'r ffordd i reoli perygl llifogydd ac arfordiroedd, bod angen gwneud mwy i sicrhau ei bod wedi'i chysylltu'n glir â'r cynlluniau SMPII ac â gwaith mewn meysydd polisi eraill, megis y strategaeth Newid yn yr Hinsawdd a'r dull ecosystemau o reoli adnoddau naturiol a amlinellir yn 'Cynnal Cymru Fyw'.

Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Brifysgol Caerdydd i awgrymu nad yw'r Strategaeth Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol (ICZM) yn rhoi prin ddim ystyriaeth i erydu arfordirol a pherygl llifogydd a bod angen ei diweddaru:

> "The School is disappointed to have to point out that the issues raised by the Welsh Audit Office (2009) in relation to the lack of integration of flood and erosion risk management with more holistic approaches to coastal management remain."

Mae'r Brifysgol o'r farn y gallai symudiad Llywodraeth Cymru tuag at reoli adnoddau naturiol ddarparu potensial i adfywio strategaeth ICZM ar gyfer arfordir Cymru.  Mae'n argymell hefyd y dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i'r posibilrwydd hwn, yn enwedig ac ystyried y materion yn ymwneud â thir a môr sy'n debygol o godi wedi i gynlluniau morol gael eu datblygu. Pwysleisiwyd, fodd bynnag, fod rhaid i gynlluniau adnoddau naturiol arfordirol gynnwys cysylltiadau clir â chynlluniau lleol a rhanbarthol sy'n bodoli eisoes, a chael eu cefnogi gan ganllawiau cynllunio priodol.

Croesawodd Ystad y Goron, sy'n berchen ac yn gyfrifol am bron holl wely môr y DU hyd at y terfyn tiriogaethol o 12 milltir forol, ddull a strategaeth Llywodraeth y DU i ddiogelu'r arfordir, ond nododd, er mwyn i gynlluniau SMPII hwyluso cyflawni amcanion y strategaeth, ac nid gweithredu fel rhwystr, fod angen cysylltiad llawer cliriach rhwng y Strategaeth Genedlaethol a'r cynlluniau.

**Argymhelliad 2: Dylai Llywodraeth Cymru roi sicrwydd bod y Cynlluniau Rheoli Traethlinau ail genhedlaeth terfynol a gymeradwyir ar gyfer Cymru'n adlewyrchu'n glir amcanion polisi'r Strategaeth Genedlaethol ac yn gysylltiedig â hi, ac y ceir cysylltiadau clir rhwng y Strategaeth a pholisïau rheoli adnoddau naturiol eraill.**

Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth am nifer o ddulliau addasol o ddiogelu arfordiroedd, gan gynnwys gweithio â phrosesau naturiol sy'n bodoli neu 'beiriannu â natur'. Ar hyd morlin Cymru, gallai'r dulliau a ddefnyddir amrywio o 'ddal y llinell' gydag amddiffynfeydd caled neu feddal neu fesurau megis porthi traethau, i dynnu'n ôl, ailosod neu dynnu amddiffynfeydd morol sydd wedi methu i ganiatáu i brosesau naturiol gymryd eu lle unwaith eto. Pa bynnag ddulliau a fabwysiadir, bydd yr hyn a wneir yn un lle'n effeithio ar fannau eraill ar hyd y forlin, ac fel y dywedodd Royal Haskoning, "mae angen dull cydlynol o ddiogelu'r arfordir i gyd".

Wrth symud oddi wrth ddull pur adweithiol o ymdrin ag erydu arfordirol, pwysleisiodd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol bwysigrwydd "ymwreiddio ymateb addasol i reoli newid arfordirol mewn gwaith cynllunio morol a defnyddio tir."

**Swyddogaeth y Corff Adnoddau Naturiol**

Cydnabuwyd yn gyffredinol y bydd gan y Corff Adnoddau Naturiol swyddogaeth bwysig o ran datblygu dull mwy cyfannol o reoli perygl erydu arfordirol. Bydd yn hollbwysig cadw cyfalaf gwybodaeth ac arbenigedd yn y corff newydd, i sicrhau parhad o ran diogelu arfordiroedd. Nododd Prifysgol Caerdydd fod rhaid i'r corff newydd fod â digon o adnoddau i'w hymroi i'r gwaith hwn:

> "…the broader focus of this institution, if managed carefully, should facilitate more holistic approaches to coastal flood and erosion risk management. This wider vision will be necessary as projected large scale losses of Natura 2000 intertidal Welsh sites[4] lead to potentially costly and contentious compensation and complex trade offs between environmental, social and economic benefits. It is, however, vital that appropriate resources are dedicated to flood and coastal erosion risk within this new body's budget."

**Argymhelliad 3: Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau y dyrennir lefel briodol o adnoddau i gefnogi gweithgareddau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol o fewn cyllideb y Corff Adnoddau Naturiol.**

**Monitro Cynnydd**

Mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru'n monitro cynnydd ac yn adrodd amdano o ran cyflawni'r amcanion a amlinellir yn y Strategaeth Genedlaethol. Mae tystiolaeth ysgrifenedig Prifysgol Caerdydd yn nodi bod EAW yn gyfrifol am fonitro'r Strategaeth yn ffurfiol ar ôl cyfnod dwy flynedd (tua diwedd 2013), ac, yng ngoleuni'r un corff amgylcheddol a ddaw, yn dweud ei bod yn hollbwysig glynu at yr amserlen adrodd hon; y dyrennir digon o adnoddau i'r drefn adrodd; a bod adrodd am ganlyniadau'n cydnabod ymrwymiadau cyfreithiol presennol dan y Gyfarwyddeb Llifogydd a deddfwriaeth genedlaethol gysylltiedig.

Mae tystiolaeth Prifysgol Caerdydd hefyd yn argymell, er mwyn sicrhau bod gweithredu'r Strategaeth yn 'fyw' ac yn fwy atyniadol, y dylid adrodd am gynnydd drwy system ar-lein ar y we, dan oruchwyliaeth

---

[4] Adroddodd Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru am golled bosibl o 7308 Ha o safleoedd Natura 2000 rhynglanwol dros y can mlynedd nesaf a chyfradd golli gyfartalog dros y cyfnod hwn o 73 Ha/blwyddyn (Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (2011) *Adroddiad Cynnydd Cyntaf am Raglen Creu Cynefinoedd Genedlaethol Cymru*.

Grwpiau Arfordirol ac â chyfraniad gan brifysgolion Cymru sydd â llawer o adnoddau arfordirol a TGCh. Mae'n cydnabod y byddai angen adnoddau ariannol priodol i ategu hyn.

**Argymhelliad 4: Dylai Llywodraeth Cymru roi sicrwydd y bydd yn adrodd am ganlyniadau'r cynlluniau a'r gweithgareddau sy'n codi o'r Strategaeth Genedlaethol Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol, erbyn dechrau 2014.**

## Cyfathrebu ac Ymgysylltiad y Cyhoedd

Dwy agwedd allweddol ar gyfathrebu dull Llywodraeth Cymru o ddiogelu arfordiroedd yw, yn gyntaf, gwella dealltwriaeth y cyhoedd o'r peryglon, ac yn ail, sicrhau cyfraniad a chefnogaeth gan swyddogion a gwleidyddion lleol i'r broses rheoli perygl SMP.

Mae'r amserlenni sy'n gysylltiedig â diogelu arfordiroedd yn cyflwyno heriau yn y naill achos a'r llall. Fel y nododd yr ymgynghorydd Atkins, mae'n anodd integreiddio amserlenni 100 mlynedd Cynlluniau Rheoli Traethlinau (SMP) a rhagfynegiadau newid yn yr hinsawdd yn fframwaith y cynllun datblygu lleol 15 mlynedd, ac mae angen goresgyn rhwystrau yn iaith, dealltwriaeth a dulliau'r gwahanol ddisgyblaethau sy'n gysylltiedig â diogelu arfordiroedd:

> "They [coastal engineers] are ….technically knowledgeable about coastal planning, risk management and the engineering side of things, but if you are trying to reduce future risks or plan for dealing with future risk, you have to engage with planners who are not necessarily so technically minded or knowledgeable in terms of what the future risks might be. Their planning horizons are different. We all talk about 50 or 100 years, no problem; those are the sorts of timescales that you have to talk about in terms of climate change and coastal erosion, but local development plans are all done on a 15-year basis. There is a mismatch between those time horizons, and you as politicians have a different time horizon as well, which is five years."

Un o bedwar prif nod y Strategaeth Genedlaethol yw codi ymwybyddiaeth o berygl llifogydd ac erydu arfordirol, a chynnwys pobl yn yr ymateb iddo. Er y cydnabuwyd y gwnaethpwyd cynnydd o ran codi ymwybyddiaeth o'r perygl, nid yw hyn yn cael ei ddilyn bob amser ar lefel leol.

Roedd tystiolaeth Royal Haskoning yn datgan:

> "Without established mechanisms for taking this forward the awareness of and discussion of how future risk could be managed tends to fade into the background.  There is almost an acceptance among communities that they are at risk but then a rapid return to 'business as usual' with the expectation that others will address or initiate actions."

Ystyriwyd bod y broses gynllunio SMP o fudd o ran cynhyrchu dealltwriaeth gyffredin o faterion diogelu arfordiroedd, ond tynnodd ymgynghorwyr sylw at yr anhawster o ran cynnwys y cyhoedd mewn cynlluniau mwy hirdymor ar gyfer senarios a ragfynegir gryn bellter i'r dyfodol:

> …"the response in many cases was, 'Beyond 20 years, it is not my problem'. That was an interesting response that we did not quite expect."

Nododd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol y gallai sôn am effeithiau newid yn yr hinsawdd na chânt eu teimlo am flynyddoedd lawer hefyd "gynyddu temtasiwn i beidio â rhoi sylw i benderfyniadau anodd y byddai'n well eu gwneud nawr". Soniodd y gallai 'ecwiti rhwng cenedlaethau' fynd yn broblem mewn rhai cymunedau arfordirol os caiff penderfyniadau am sut i ymateb i erydu arfordirol eu gohirio am eu bod yn annymunol.

Nododd tystiolaeth Prifysgol Caerdydd hefyd "…mae ymchwil academaidd diweddar (Whitmarsh 2011) wedi dangos 'nid yw addysg yn unig yn ddigon; mae angen ymgysylltiad gweithgar er mwyn newid ymddygiad'."

Ystyriodd y Pwyllgor dystiolaeth am faint y perygl a achosir gan erydu arfordirol. Mae EAW yn datgan bod oddeutu 105,000 o adeiladau (cartrefi a busnesau) mewn perygl o lifogydd arfordirol yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd hefyd wrthi'n dadansoddi nifer yr adeiladau y rhagwelir y byddant mewn perygl o lifogydd arfordirol yng Nghymru erbyn 2050 a 2100.

Nododd adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru 2009 am Erydu Arfordirol a Pheryglon Llifogydd Llanw yng Nghymru fod economi a lles cymdeithasol cymunedau arfordirol wedi'u diogelu gan oddeutu 415km o amddiffynfeydd môr artiffisial. Byddai'n costio tua £750 miliwn i gael rhai newydd yn eu lle ac maent yn diogelu asedau â gwerth dros £8 biliwn. Mae'r dystiolaeth hon yn tynnu sylw at bwysigrwydd ymgysylltu cymunedol, a gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog pa gamau yr oedd Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i annog mwy o weithredu a pherchenogaeth gan gymunedau. Dywedodd y Gweinidog fod rheoli disgwyliadau'n rhywbeth y "mae'n rhaid i ni barhau i weithio arno wrth symud ymlaen." Roedd yn gobeithio bod y Strategaeth Genedlaethol yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng bod yn

agored ac yn onest am risg ond bod hefyd yn sensitif i beidio â defnyddio iaith a allai ddychryn pobl yn ddiangen.

Cynigiodd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol neilltuo canran o gyllid diogelu arfordiroedd i gefnogi datrysiadau addasol arloesol a chynnwys y cyhoedd ac ymgysylltu â hwy wrth ffurfio cynlluniau lleol.

**Argymhelliad 5: Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu strategaeth ymgysylltiad y cyhoedd a chynllun cyfathrebu gyda chyllid i wella ymwybyddiaeth gyffredinol o ddiogelu arfordiroedd fel mater o flaenoriaeth i Gymru gyfan, i gymunedau ac i'r swyddogion a'r gwleidyddion sy'n gyfrifol am gyflawni cynlluniau SMP ac amcanion y Strategaeth Genedlaethol ar lefel leol. Dylai'r cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu hwn fod â'r nod o ddatblygu ac atgyfnerthu cefnogaeth eang ac amhleidiol i weithredu'r cynlluniau SMP a nodau'r Strategaeth Genedlaethol.**

## Adnoddau staff a'u gallu i gyflenwi

Nodwyd bod ymdeimlad o ddiffyg sgiliau ac adnoddau staff yn her sylweddol i barhau i gyflenwi'r Strategaeth Genedlaethol. Mae Adroddiad Blynyddol Cyntaf WCMC ar gyfer 2011 yn rhoi sylw i lefel yr adnoddau staff sydd ar gael i bob awdurdod lleol â morlin. Dim ond tri o'r 15 Awdurdod Lleol Morol (20 y cant) sydd â mwy nag un aelod staff cyfwerth ag amser llawn yn gweithio ym maes rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol.

Awgrymwyd dull 'Tîm Cymru' fel datrysiad posibl i'r broblem hon, a nododd EAW, er nad oes llawer o adnoddau medrus, y ceir 'pocedi' o adnoddau ar draws gwahanol sefydliadau a allai ategu eu meysydd arbenigedd ei gilydd.

Nododd y Gweinidog swyddogaeth sylweddol WLGA yn hyn o beth, a phwysleisiodd fod Llywodraeth Cymru'n awyddus i sicrhau arfer da a chydweithio.

**Argymhelliad 6: Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod eu dull strategol o ddiogelu arfordiroedd yn cynnwys sefydlu mecanweithiau cyflenwi sy'n cefnogi gweithio mewn partneriaeth a dull 'Tîm Cymru'. Os yw'r Corff Adnoddau Naturiol am gymryd y swyddogaeth diogelu arfordiroedd, rhaid i gyfrifoldebau allweddol y corff gynnwys sicrhau cydlynu arbenigedd a rhannu arfer gorau ledled Cymru.**

## Cyllid

Mynegodd yr holl dystion bryderon am y ffordd y caiff gwaith diogelu arfordiroedd ei ariannu ar hyn o bryd yng Nghymru. Disgrifiodd CCW y drefn ariannu bresennol fel 'cyfyngiad sylweddol', mae EAW yn ystyried bod y ffordd y caiff yr arfordir ei reoli'n 'anghynaliadwy yn y tymor hir', a nododd Royal Haskoning fod angen 'cynnydd sylweddol mewn costau' i gynnal amddiffynfeydd diogelu arfordiroedd. Canfuwyd bod angen buddsoddi mwy mewn rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol, a nododd EAW y gallai fod angen tair gwaith cymaint o arian ar Gymru dros y 25 mlynedd nesaf i aros yn llonydd o ran lefel yr amddiffyniadau presennol. Pwysleisiodd rhanddeiliaid fod angen sicrhau bod yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael i ddiogelu arfordiroedd yn cael eu defnyddio mor effeithlon ac effeithiol â phosibl.

Dywedodd yr WCMC hefyd fod cwmpas i resymoli a symleiddio'r broses cymhwyster ac ymgeisio am gymorth grant i awdurdodau lleol, gan fod amrywiadau sefydledig hanesyddol yn y cyllid yr oedd awdurdodau unigol yn gymwys i'w gael.

Nododd y Pwyllgor gymhlethdod y trefniadau ariannu presennol, a chafwyd rhywfaint o drafodaeth â'r Gweinidog am gyfanswm dyraniadau'r gyllideb i lifogydd ac erydu arfordirol a chafodd y Pwyllgor ddadansoddiad o linellau cyllideb cyfalaf a refeniw adrannol craidd ar gyfer rheoli llifogydd a pherygl arfordirol; arian cyfalaf ychwanegol a ddyrennir gan gronfeydd canolog Llywodraeth Cymru; a chyllid Ewropeaidd.

Tynnodd y rhan fwyaf o'r tystion sylw at y ffaith y gall cynlluniau rheoli perygl arfordirol greu buddion ehangach nag amddiffyn rhag llifogydd ac erydu yn unig, megis twristiaeth, amgylcheddol, hamdden a datblygu economaidd. Roedd y dystiolaeth a gafwyd gan y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth yn tanlinellu hyn. Fodd bynnag, fel rheol daw arian i gynlluniau rheoli perygl arfordirol o'r gyllideb amddiffynfeydd arfordirol, a holodd y Pwyllgor Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy pa drafodaethau a gynhaliwyd ar lefel y Cabinet am gasglu cyllid o wahanol ffynonellau.

Cadarnhaodd y Gweinidog ei fod wedi cyflwyno achos o blaid dull trawsbynciol "sy'n deall y perygl i holl weithgarwch Llywodraeth Cymru o ran diogelu arfordiroedd a pherygl llifogydd ac erydu arfordirol". Nododd fod ei swyddogion yn cydweithio'n agos â swyddogion

adfywio i ddefnyddio dull llywodraethol cydlynol i ymdrin ag effeithiau ehangach llifogydd arfordirol, a chafwyd gwaith trawsadrannol da gyda'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth, sy'n gyfrifol am fentrau i sicrhau cynaliadwyedd morlin Cymru, megis y 'Bartneriaeth Môr Glas' i wella ansawdd traethau a dyfroedd ymdrochi Cymru.

**Cyllid gan yr UE**

Mewn Datganiad Cabinet ar 8 Mai 2012, dywedodd y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd, Alun Davies:

> "I esbonio rhai o'r dewisiadau anodd hyn, rydym eisoes wedi dechrau nodi meysydd buddsoddi lle y cynigir y byddai rhagdybiaeth yn erbyn defnyddio arian yr UE i'w cefnogi. Bydd y rhain yn cynnwys…mesurau helaeth i liniaru ac ymaddasu i newid hinsawdd, gan gynnwys buddsoddi i liniaru llifogydd, nad ydynt yn cefnogi swyddi a thwf[5].

Soniodd yr ymgynghorydd Atkins am gyfyngiadau cyllid yr UE:

> "Recent coastal defence projects in Wales have been allocated significant EU funds, which boosts Welsh Government funding. However, EU spending rules place strict deadlines on how and when funds need to be spent. This can lead to artificially compressed timescales for projects….
>
> "…Having to work around artificial deadlines can increase risk to everyone – the environment, the client, and the contractor suppliers. This can lead to increased costs and less overall value for money."

Roedd Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy o'r farn bod prif gyfyngiad cyllid yr UE i gynlluniau diogelu arfordiroedd yn ymwneud ag arian cyfatebol ac i ba raddau y byddai ar gael mewn blwyddyn ariannol benodol. Cydnabu prif swyddog rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol y gallai defnyddio cyllid yr UE i weithredu cynlluniau hirsefydlog awdurdodau lleol i ddiogelu arfordiroedd ar raddfa fawr o fewn amserlen gaeth achosi heriau, ond bod Llywodraeth Cymru'n ceisio gwneud cymaint ag y gallai o fewn y cyfyngiadau hynny.

---

[5] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cofnod y Trafodion, 8 Mai 2012

O ran ysgogi cyllid o fannau eraill, dywedodd y Gweinidog y byddai'n bwysig edrych y tu hwnt i gyllid Ewropeaidd ac edrych ar y rheini a oedd yn elwa o ddiogelu arfordiroedd. Gallai hyn gynnwys rhai sy'n cael budd masnachol neu fusnes, neu rai sydd ag asedau economaidd yn cael eu diogelu. Rhoddodd y Gweinidog enghraifft seilwaith: "Os yw'n amlwg y bydd cynlluniau'n diogelu seilwaith Dŵr Cymru a Network Rail, er enghraifft, nid yw'n afresymol archwilio'r posibilrwydd o gyfraniad gan y sefydliadau hynny hefyd."

**Argymhelliad 7: Dylai Llywodraeth Cymru weithio i ganfod a defnyddio ffynonellau cyllid newydd ar gyfer diogelu arfordiroedd: o gyllidebau adrannau ar draws y Llywodraeth a gan gyrff allanol, gan gynnwys rhai yn y sector masnachol a'r sector busnes, a'r rheini sy'n elwa o fentrau diogelu arfordiroedd drwy i'w hasedau economaidd gael eu diogelu.**

**Blaenoriaethu Buddsoddi**

Mae'r Strategaeth Genedlaethol yn cynnwys ymrwymiad i ddatblygu methodoleg genedlaethol ar gyfer blaenoriaethu cyllid a pholisïau cyllid; fe'i gelwir hefyd yn Rhaglen Fuddsoddi Sengl. Yn ei dystiolaeth, dywedodd y Gweinidog:

> "A Single Investment Programme for flood and coastal erosion risk management in Wales will set out a prioritisation methodology that will allow us to rank areas of Wales from the most at risk to the least at risk. This will then enable us to target investment in the most at risk communities with appropriate intervention methods directed as required."

Cododd ymgynghorwyr bwysigrwydd gweledigaeth gyffredinol, a chydbwyso erydu arfordirol â'r materion economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol. Nododd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol hefyd "mae'n debygol ein bod yn gryfach o ran diogelu natur a meddwl am anghenion natur nag o ran diogelu buddiannau cymunedau arfordirol."

Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor mai 'cofrestr cymunedau mewn perygl' bresennol Asiantaeth yr Amgylchedd fyddai sail y fethodoleg sy'n ystyried pryderon economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol, ond bod grŵp ymgynghorol yn edrych ar ddatblygu'r fethodoleg a bod ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i gynllunio ar ddechrau 2013.

Bydd y Rhaglen Fuddsoddi Sengl hefyd yn offeryn hollbwysig o ran helpu i gyfathrebu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer diogelu arfordiroedd i gynulleidfa ehangach a chefnogi gweithgareddau ymgysylltiad y cyhoedd. Felly, mae'r Pwyllgor yn edrych ymlaen at gael diweddariad am gynnydd y rhaglen hon.

**Argymhelliad 8: Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu diweddariad pellach i'r Pwyllgor am weithredu'r Rhaglen Fuddsoddi Sengl. Awgrymir y dylid darparu diweddariad cynnydd cychwynnol yn hydref 2013.**

**Dysgu o brosiectau braenaru**

Yn ddiweddar, adolygodd Adran yr Amgylchedd, Pysgodfeydd, Bwyd a Materion Gwledig y DU (DEFRA) lwyddiant eu Rhaglen Fraenaru Newid Arfordirol, gyda'r nod o brofi dulliau newydd ac arloesol o gynllunio ar gyfer newid arfordirol a'i reoli yn Lloegr. Yn ôl yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, roedd y prosiectau braenaru peilot o gymorth o ran cefnogi gweithgarwch ymgysylltu, datblygu dealltwriaeth a chytuno ar ddulliau mwy hirdymor o reoli arfordiroedd. Byddent yn croesawu rhaglen o brosiectau braenaru peilot tebyg yng Nghymru, er y nodwyd y bu'r amserlenni i awdurdodau lleol weithio gyda chymunedau i gyflenwi prosiectau braenaru'n afrealistig o fyr. Nododd Prifysgol Caerdydd y gallai gwersi a ddysgwyd gan brosiectau braenaru yn Lloegr fod yn ddefnyddiol o ran helpu Llywodraeth Cymru i "hyrwyddo datblygu cynlluniau ariannu mewn partneriaeth ac ymchwilio'n fwy gweithredol i effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd trefniadau ariannu eraill".

Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru, ynghyd â DEFRA, yn asesu'r gwersi i'w dysgu o'r rhaglen hon, gan gynnwys am sut y mae cymunedau'n addasu i berygl a sut i symud ymlaen â mater sensitif pobl sy'n gorfod symud i ffwrdd o ardaloedd erydu arfordirol.

**Argymhelliad 9: Dylai Llywodraeth Cymru hysbysu'r Pwyllgor cyn gynted â phosibl am eu hasesiad o sut y gall gwersi a ddysgir o brosiectau braenaru yn Lloegr gael eu defnyddio yng Nghymru, ac a ydynt yn bwriadu cynnal prosiectau peilot tebyg.**

## Adolygu Darpariaethau a Chanllawiau Cynllunio

Ceir cysylltiad annatod rhwng diogelu arfordiroedd a chynllunio, a chafwyd cefnogaeth gref gan randdeiliaid i fynd ati ar frys i adolygu'r darpariaethau cynllunio perthnasol ar gyfer diogelu arfordiroedd, yn enwedig Nodiadau Cyngor Technegol (TAN) 14 a 15. Nododd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol fod TAN 14 wedi'i danategu gan syniadau a gwyddoniaeth newid yn yr hinsawdd a oedd ar gael yn 1998, gan olygu ei fod bellach wedi dyddio, ond hefyd fod y cyngor wedi'i ffocysu ar ddarparu datrysiad peiriannu, gan olygu, pe na bai un yn bodoli, nad oedd datrysiad arall ar gael:

> "What is missing from TAN 14 includes some of the more creative policy instruments that we could develop that would help us, for example time-limited planning consent, so that when a particular community faces coastal change and loss through erosion, but the decision is made that there will be no defence, that community does not fall apart overnight. It could be decades, in fact, but what tends to happen in those situations is that vital community infrastructure starts to be lost. We see this quite a lot on the east coast of England, where the village hall or the graveyard is the first thing to go. To maintain the viability of those communities as we adjust and adapt out of the risk zone, there is a case to be made for time-limited planning permission, to enable communities to function cohesively but on the basis that, at some point in the future, the sea will erode back to that point. That is one example. There are others around roll-back, where you can have planning consents that allows communities to roll back over time."

Dywedodd tystiolaeth ysgrifenedig Prifysgol Caerdydd fod angen diwygio TAN 14 "i adlewyrchu'r angen am waith cydweithredol, yr agenda perygl arfordirol newydd, rhagfynegiadau diweddar am newid yn yr hinsawdd ac, yn benodol, mapiau erydu arfordirol y prosiect NCERM [Mapio Erydu Arfordirol Cenedlaethol]. Mae'r Brifysgol hefyd o'r farn y dylai'r TAN newydd hyrwyddo mabwysiadu parthau erydu arfordirol cryfach a pholisïau cynllunio cysylltiedig o fewn cynlluniau lleol…"

Mae'r Brifysgol hefyd yn cynghori y dylid diwygio TAN 15 i ystyried cyfrifoldebau a chyfleoedd newydd dan y Fframwaith Amgylchedd Naturiol:

> "There is a need for the revised TAN to consider ways in which planning authorities can work with others to develop innovative cross-cutting approaches which result in 'win-win' solutions."

Nododd y Brifysgol y ffaith y cafwyd "hanes newidiol o fabwysiadu polisïau SMPI mewn dogfennau cynllunio lleol a nifer bach ond arwyddocaol o ddatblygiadau'n cael cymeradwyaeth yng Nghymru sydd wedi digwydd yn groes i gyngor EAW". Argymellasant y dylai Grwpiau Arfordirol chwarae rhan weithredol o ran monitro datblygiad cynlluniau lleol, i sicrhau bod ail genhedlaeth cynlluniau SMP yn cael eu deall a'u troi'n bolisïau priodol mewn cynlluniau lleol, a bod canllawiau pwrpasol a phenodol yn cael eu datblygu ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol.

Fodd bynnag, datganodd tystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidog "Ar y cyfan, mae'r dystiolaeth yn dangos y gall Polisi Cynllunio Cymru a'r nodiadau TAN ddarparu polisi cadarn lle cyflwynir ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygu ar orlifdiroedd." Mewn tystiolaeth lafar, dywedodd y byddai'n well aros tan i'r pedwar SMPII fod ar waith ac wedi'u cymeradwyo – gobeithiwyd y byddai hynny tua diwedd 2012 – ac i'r corff amgylcheddol sengl fod mewn grym cyn edrych ar adolygu canllawiau cynllunio, gan fod cynllunio morol hefyd yn berthnasol:

> "I think that it is important to have all the pieces of the jigsaw puzzle in place before we review TAN 14 or TAN 15".

Fodd bynnag, aeth y Gweinidog yn ei flaen i ddweud ei fod yn credu eu bod yn darparu 'system eithaf cadarn' a'u bod wedi bod yn effeithiol.

Aeth y Pwyllgor ar ôl materion cynllunio ymhellach gan ofyn a oedd y Gweinidog yn rhagweld y byddai'r Bil Cynllunio'n diwygio systemau diogelu arfordiroedd. Cydnabuwyd y gellid gwneud mwy drwy'r system gynllunio i sicrhau bod mesurau lliniaru wedi'u cynnwys yng nghynlluniau amgylchedd adeiledig y dyfodol. Roedd llawer o brosesau gwaith wedi'u cychwyn i ddatblygu'r Bil Cynllunio, ond dywedodd y Gweinidog:

> "…there is a lot of opportunity to take forward improvement, and I hope that people in organisations use these opportunities to feed in their views."

**Argymhelliad 10: Dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu adolygu digonoldeb y darpariaethau cynllunio sy'n berthnasol i ddiogelu arfordiroedd, yn enwedig Nodiadau Cyngor Technegol 14 a 15, o**

**fewn eu ffrydiau gwaith i ddiwygio system gynllunio Cymru. Dylid ystyried yn llawn y safbwyntiau a fynegwyd gan y rhanddeiliaid a roddodd dystiolaeth i ymchwiliad y Pwyllgor.**

## Cyfarwyddeb Cynefinoedd

Rhaid gweithredu cynlluniau SMPII yn unol â gofynion y Gyfarwyddeb Cynefinoedd. Felly, rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb hon cyn eu cymeradwyo. Mae'r Gyfarwyddeb yn datgan, os yw gwaith a wneir megis gwaith diogelu arfordir yn debygol o gael effaith anffafriol ar gynefin a warchodir dan y Gyfarwyddeb honno, bod rhaid i'r Aelod Wladwriaeth ddangos bod budd cyhoeddus tra phwysig sy'n golygu bod rhaid cwblhau'r gwaith. Rhaid i Aelod Wladwriaethau hefyd sicrhau eu bod yn creu cynefin cydbwyso digonol sydd o'r un natur ac ansawdd â'r un y ceir effaith anffafriol arno.

Tynnodd CCW sylw at y ffaith bod cynlluniau SMPII wedi nodi y bydd gweithredu'r cynlluniau'n cael effaith anffafriol ar safleoedd a ddynodwyd dan y Gyfarwyddeb ac, er mwyn symud ymlaen â rhoi'r cynlluniau ar waith, y bydd angen i Lywodraeth Cymru ddarparu cynefin cydbwyso o ansawdd digonol mewn perthynas â chyfnod amser y cynllun. Ni fydd yn bosibl rhoi'r cynlluniau SMPII ar waith heb sicrhau hyn.

Mewn ymateb i'r Pwyllgor am hyn, dywedodd y Gweinidog ei fod yn 'rhesymol hyderus' y gall Rhaglen Creu Cynefinoedd Cymru ganfod cynefinoedd cydbwyso digonol i liniaru effaith y cynlluniau SMP a ragwelir ar hyn o bryd.

**Argymhelliad 11: Er mwyn sicrhau y gweithredir y Cynlluniau Rheoli Traethlinau'n amserol, mae angen i Lywodraeth Cymru flaenoriaethu ar frys y gwaith o gwblhau'r asesiadau gofynnol o'r cynlluniau rheoli traethlinau sy'n ofynnol gan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd flaenoriaethu'r gwaith o ganfod a chreu cynefinoedd cydbwyso addas.**

# Atodiad A - Cylch gorchwyl

Diben yr ymchwiliad hwn yw:

- asesu cynnydd Llywodraeth Cymru ac awdurdodau perygl llifogydd Cymru wrth weithredu amcanion y Strategaeth Genedlaethol Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru;
- ystyried sut y mae Cynlluniau Rheoli Traethlinau a Strategaethau Perygl Llifogydd Lleol yn adlewyrchu amcanion y Strategaeth;
- casglu safbwyntiau rhanddeiliaid am y Strategaeth a'i chyflenwi a sut y gellid eu gwella;
- casglu safbwyntiau am sut y caiff diogelu arfordiroedd ei ariannu a sut y gellid gwella hyn;
- gwneud argymhellion i Lywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch sut y gellid gwella'r ffordd y caiff prosesau diogelu arfordiroedd Cymru eu cyflenwi a'u hariannu.

Bydd y Pwyllgor yn ystyried:

- a oes unrhyw rwystrau i ddatblygu prosesau diogelu arfordiroedd yng Nghymru a sut y gellid rhoi sylw i'r rhain?
- pa gam y mae'r gwaith o ddatblygu'r Strategaethau Perygl Llifogydd Lleol wedi'i gyrraedd a sut y byddant yn gweithredu'r Strategaeth Genedlaethol a'r Cynlluniau Rheoli Traethlinau?
- pa mor effeithiol yw mecanweithiau ariannu presennol prosesau diogelu arfordiroedd?
- beth sy'n cael ei wneud i gyfathrebu amcanion a pheryglon sy'n gysylltiedig â diogelu arfordiroedd a chynlluniau cyfathrebu'r dyfodol?
- beth yw safbwyntiau rhanddeiliaid am y gwahanol agweddau hyn?

## Atodiad B - Tystion

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth i'r Pwyllgor. Gellir gweld trawsgrifiadau'r cyfarfodydd yn
http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=1308

| **5 GORFFENNAF 2012** | |
|---|---|
| **Sesiwn 1** | |
| Emlyn Jones | Canolfan Monitro Arfordirol Cymru |
| Louise Pennington | Canolfan Monitro Arfordirol Cymru |
| **Sesiwn 2** | |
| Dr Susan Gubbay | Cyngor Cefn Gwlad Cymru |
| Dr Nicola Rimington | Cyngor Cefn Gwlad Cymru |
| Steve Cook | Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru |
| Graham Hillier | Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru |
| **Sesiwn 3** | |
| Neville Rookes | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| **Sesiwn 4** | |
| Kath Winnard | Atkins |
| Kevin Owen | Atkins |
| Marcus Philips | Halcrow |
| Greg Guthrie | Royal Haskoning |

| | |
|---|---|
| **Sesiwn 5** | |
| Phil Dyke | Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol |
| **19 GORFFENNAF 2012** | |
| John Griffiths AM | Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy |
| Nicola Edwards | Llywodraeth Cymru |
| Prys Davies | Llywodraeth Cymru |

## Atodiad C - Tystiolaeth Ysgrifenedig

Cafwyd y dystiolaeth ysgrifenedig ganlynol. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yn http://www.senedd.cynulliadcymru.org/ieIssueDetails.aspx?IId=3512&Opt=3

| *Sefydliad* | *Cyfeirnod* |
|---|---|
| Canolfan Monitro Arfordirol Cymru | E&S(4)-20-12: Papur 1 |
| Prifysgol Caerdydd – Ysgol Gwyddorau'r Ddaear a'r Môr | E&S(4)-20-12: Papur 2 |
| Cyngor Cefn Gwlad Cymru | E&S(4)-20-12: Papur 3 a gwybodaeth atodol |
| Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru | E&S(4)-20-12: Papur 4 |
| Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | E&S(4)-20-12: Papur 5 |
| Atkins | E&S(4)-20-12: Papur 6 |
| Halcrow | E&S(4)-20-12: Papur 7 |
| Royal Haskoning | E&S(4)-20-12: Papur 8 |
| Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol | E&S(4)-20-12: Papur 9 |
| Llywodraeth Cymru – Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy | E&S(4)-21-12: Papur 1 a gwybodaeth atodol |
| Llywodraeth Cymru – Y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth | E&S(4)-21-12: Papur 2 a gwybodaeth atodol |
| Sefydliad Peirianwyr Sifil Cymru | Tystiolaeth ysgrifenedig: CP-01 |
| Ystad y Goron | Tystiolaeth ysgrifenedig: CP-02 |